# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

# Cofnodion (SC(3)-21-08)

Dyddiad: 13 Tachwedd 2008
Amser: 9:00 - 11:15am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd

## Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn

Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth

Lesley Griffiths, Wrecsam

Darren Millar, Gorllewin Clwyd

Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Brynle Williams, Gogledd Cymru

Leanne Wood, Canol De Cymru

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc

Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

## Eraill yn Bresennol

Peter Davies, Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Keith Davies, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (trwy gyswllt cynhadledd fideo)

John Hamer, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (trwy gyswllt cynhadledd fideo)

Bettina Bockelmann-Evans, Prifysgol Caerdydd

Ian Masters, Prifysgol Abertawe

Peter Jones, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Ruth Lovell, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar

Roger Wade, Asiantaeth yr Amgylchedd

Mike Evans, Asiantaeth yr Amgylchedd

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.  Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies a Karen Sinclair.

## Eitem 2 : Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon. Sesiwn Dystiolaeth ar Gynhyrchu Ynni

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Peter Davies, Keith Davies a John Hamer i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi sylwadau cychwynnol ar ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

2.2 Cytunodd Peter Davies i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor am farn y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ar gysylltu â'r grid dosbarthu pŵer yng Nghymru.

2.3 Addawodd Keith Davies ddarparu rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor am ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn Nhechnolegau Ynni Adnewyddadwy'r Môr.

## Eitem 3 : Ymchwiliad i Leihau Allyriadau Carbon. Sesiwn Dystiolaeth ar Gynhyrchu Ynni

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Bettina Bockelmann-Evans, Ian Masters, Ruth Lovell, Peter Jones, Roger Wade a Mike Evans i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi sylwadau cychwynnol ar Dechnoleg Ynni Adnewyddadwy'r Môr.  Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

3.2 Cytunodd Ruth Lovell i ddarparu copi i'r pwyllgor o'r astudiaeth beirianyddol ar Gynllun arfaethedig Morglawdd Hafren a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, a chopi o'r adroddiad gan Rupert Armstrong-Evans ar riffiau llanw.

3.3 Cytunodd Bettina Bockelmann-Evans i ddarparu ffigyrau i'r pwyllgor ar effaith cynhesu byd-eang ar bysgod yn Aber Afon Hafren.

## Eitem 4: Cynnig o dan Reol 10.37 o'r Rheolau Sefydlog i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd o'r Cyfarfod ar gyfer Eitem 4

3.1 Symudodd y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 5-7, er mwyn trafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig ac aeth i sesiwn breifat.

## Eitem 5: Trafod adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Ad-drefnu Ysgolion Gwledig

5.1 Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod arall yn y dyfodol.

## Eitem 6: Trafodaeth ar berthynas y Pwyllgor gyda'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ffyrdd o weithio gyda'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd.

## Eitem 7: Trafodaeth ar Amserlen y Pwyllgor

7.1 Cytunodd y pwyllgor i beidio â chynnal cyfarfod ar 11 Rhagfyr.

## Eitem 8: Papurau i'w Nodi

8.1 Nododd y pwyllgor y papurau.